# Taflen Wybodaeth y Claf 24

## Deddf Iechyd Meddwl 1983

## Adrannau 26-30: Eich Perthynas Agosaf Dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983

### Perthynas Agosaf

Mae'r daflen hon yn egluro pwy yw eich "perthynas agosaf" a beth yw swyddogaethau eich perthynas agosaf dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae'r daflen wedi'i rhannu'n bum rhan:

- Mae Rhan 1 yn esbonio'r rheolau ynghylch pwy yw eich perthynas agosaf
- Mae Rhan 2 yn esbonio'r hyn y gall eich perthynas agosaf ei wneud dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (ei hawliau)
- Mae Rhan 3 yn esbonio sut y gall rhywun arall ddod yn berthynas agosaf i chi
- Mae Rhan 4 yn disgrifio eithriadau i'r rheolau arferol
- Mae Rhan 5 yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol.

# RHAN 1

## Perthynas Agosaf

Yn y Ddeddf Iechyd Meddwl, caiff y bobl ganlynol eu trin fel eich "perthnasau". Fel rheol, y person sydd uchaf ar y rhestr fydd eich "perthynas agosaf":

- eich gŵr, eich gwraig neu'ch partner sifil
- partner sydd wedi bod yn byw gyda chi ers mwy na chwe mis fel pe bai'n ŵr, yn wraig neu'n bartner sifil i chi
- eich mab neu'ch merch
- eich mam neu'ch tad
- eich brawd neu'ch chwaer
- eich mam-gu/nain neu'ch tad-cu/taid
- eich ŵyr neu'ch wyres
- eich modryb neu'ch ewythr
- eich nai neu'ch nith
- unrhyw un arall sydd wedi bod yn byw gyda chi ers o leiaf pum mlynedd.

Er enghraifft:

- os ydych yn briod ac os oes gennych blentyn, eich gŵr neu'ch gwraig fydd y person uchaf ar y rhestr a bydd eich plentyn yn ail
- os mai eich mam a'ch nith yw eich unig berthnasau, eich mam fydd uchaf ar y rhestr a bydd eich nith yn ail.

Os oes mwy nag un person yn yr un safle ar y rhestr, dylech nodi mai'r person hynaf fydd yn dod gyntaf. Er enghraifft, os mai un o'ch plant yw eich perthynas agosaf, eich plentyn hynaf fydd eich perthynas agosaf fel rheol.

Os ydych fel rheol yn byw gyda rhywun neu'n cael gofal gan rywun sydd ar y rhestr uchod o berthnasau, dylech nodi y bydd y person hwnnw'n symud i frig y rhestr ac y bydd fel rheol yn berthynas agosaf i chi. Os ydych yn yr ysbyty, bydd y bobl hynny'n cynnwys y rhai yr oeddech yn byw gyda nhw neu'r oeddech yn cael gofal ganddyn nhw cyn i chi fynd i'r ysbyty. Os oes mwy nag un person yn perthyn i'r categori hwnnw, y sawl a oedd uchaf ar y rhestr eisoes fydd eich perthynas agosaf fel rheol.

Er enghraifft, os mai eich tad a'ch dwy chwaer yw eich unig berthnasau ac os ydych yn byw gyda'ch dwy chwaer, bydd eich dwy chwaer yn symud i frig y rhestr uwchben eich tad, a'r hynaf o'ch dwy chwaer fydd eich perthynas agosaf fel rheol.

Ewch i RAN 4 y daflen hon i weld yr eithriadau i'r rheolau hyn neu os ydych dan 18 oed.

# RHAN 2

## Hawliau'r Perthynas Agosaf

Mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn nodi y gall eich perthynas agosaf wneud amryw o bethau sy'n gysylltiedig â'ch gofal a'ch triniaeth. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi bod yn rhaid i bobl eraill sôn wrth eich perthynas agosaf weithiau am bethau sy'n ymwneud â'ch gofal a'ch triniaeth. Gelwir y rhain yn "hawliau" eich perthynas agosaf.

### Yr hawl i ofyn i chi gael eich cadw neu'ch gwneud yn destun gwarcheidiaeth

Os oes gennych anhwylder meddyliol, gall eich perthynas agosaf ofyn i chi gael eich cadw yn yr ysbyty neu'ch gwneud yn destun gwarcheidiaeth er mwyn eich helpu i fyw yn y gymuned. Gwneud cais i chi gael eich cadw yw enw'r broses honno.

### Yr hawl i ofyn i broffesiynolyn iechyd meddwl cymeradwy eich gweld

Proffesiynolyn Iechyd Meddwl Cymeradwy (PIMC) yw rhywun sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig i benderfynu a oes angen i bobl gael eu cadw neu'u gwneud yn destun gwarcheidiaeth. Gall eich perthynas agosaf ofyn i'ch awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol ofyn i PIMC ystyried a oes angen i chi gael eich cadw neu'ch gwneud yn destun gwarcheidiaeth ai peidio. Os bydd y PIMC yn penderfynu nad oes angen i chi gael eich cadw neu'ch gwneud yn destun gwarcheidiaeth, bydd yn rhaid iddo egluro'i resymau wrth y perthynas agosaf yn ysgrifenedig.

### Yr hawl i gael gwybod am eich amodau cadw neu'ch gwarcheidiaeth

Os bydd PIMC yn gwneud cais i chi gael eich cadw at ddiben cael asesiad, bydd yn rhaid iddo wneud popeth o fewn ei allu fel rheol i sôn wrth eich perthynas agosaf am y cais ac am ei hawliau. Ni all eich perthynas agosaf atal PIMC rhag gwneud y math hwn o gais. Os bydd PIMC yn ystyried gwneud cais i chi gael eich cadw at ddiben cael triniaeth neu'ch gwneud yn destun gwarcheidiaeth, bydd fel rheol yn gwneud popeth o fewn ei allu i ofyn am farn eich perthynas agosaf ynghylch hynny'n gyntaf.

Os nad yw eich perthynas agosaf am i chi gael eich cadw at ddiben cael triniaeth neu'ch gwneud yn destun gwarcheidiaeth, gall atal y PIMC rhag gwneud y cais trwy ddweud wrth y PIMC neu ddweud wrth yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol y mae'r PIMC yn gweithio iddo.

Fodd bynnag, os yw'r PIMC o'r farn bod penderfyniad eich perthynas agosaf yn afresymol, gall ofyn i'r llys sirol benodi rhywun arall i fod yn berthynas agosaf i chi. Os ydych eisoes wedi cael eich cadw at ddiben cael asesiad, ac os yw'r staff o'r farn bod angen i chi aros yn yr ysbyty, gellir eich cadw yno nes bod y llys yn penderfynu beth i'w wneud.

### Yr hawl i gael gwybodaeth

Os byddwch yn cael eich cadw neu'ch gwneud yn destun triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth, bydd yn rhaid i'r ysbyty esbonio wrthych pam yr ydych yn cael eich cadw a beth yw eich hawliau. Bydd yr ysbyty'n rhoi copi i'r perthynas agosaf o'r wybodaeth ysgrifenedig a roddwyd i chi, oni bai eich bod yn gofyn i'r ysbyty beidio â gwneud hynny.

Mae'r un peth yn berthnasol os bydd eich clinigwr â chyfrifoldeb o'r farn y dylech chi aros yn yr ysbyty, neu os bydd yn ymestyn eich gorchymyn triniaeth gymunedol.

Os byddwch yn cael eich gwneud yn destun gwarcheidiaeth (neu os caiff eich gwarcheidiaeth ei hadnewyddu), bydd yn rhaid i'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol sôn wrthych am eich hawliau. Bydd yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol yn rhoi copi i'r perthynas agosaf o'r wybodaeth ysgrifenedig a roddwyd i chi, oni bai eich bod yn gofyn iddo beidio â gwneud hynny.

## Yr hawl i gael gwybod os bwriedir eich rhyddhau

Os ydych wedi cael eich cadw neu'n cael triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth, ac os bwriedir eich rhyddhau erbyn hyn, rhaid i'r ysbyty adael i'ch perthynas agosaf wybod fel rheol oni bai eich bod yn gofyn i'r ysbyty beidio â dweud wrtho.

Os nad yw eich perthynas agosaf am gael gwybod, gall ofyn i reolwyr yr ysbyty beidio â dweud wrtho.

## Yr hawl i'ch rhyddhau

Gall eich perthynas agosaf ysgrifennu at reolwyr yr ysbyty i ddweud ei fod am i chi gael eich rhyddhau a chael caniatâd i adael yr ysbyty neu orffen cael triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth. Os bydd eich perthynas agosaf yn gwneud hynny, bydd yn rhaid i reolwyr yr ysbyty ganiatáu i chi adael yr ysbyty cyn pen 72 awr, oni bai fod eich clinigwr â chyfrifoldeb yn dweud wrthynt y gallech chi fod yn beryglus i chi'ch hun neu bobl eraill pe baech yn cael caniatâd i adael.

Os ydych yn destun gwarcheidiaeth, gall eich perthynas agosaf ddod â'ch gwarcheidiaeth i ben trwy ysgrifennu at eich awdurdod gwasanaethau cymdeithasol. Ni all y clinigwr â chyfrifoldeb atal hynny.

## Yr hawl i wneud cais i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn gofyn i chi gael eich rhyddhau

Gall y rhan fwyaf o bobl a gedwir ofyn i banel annibynnol – a elwir yn Dribiwnlys – ddweud y dylent gael eu rhyddhau a chael caniatâd i adael yr ysbyty. Gallwch chi wneud cais i'r Tribiwnlys hefyd os ydych yn destun triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth neu warcheidiaeth.

Fel rheol, bydd eich perthynas agosaf yn cael gwybod os byddwch yn gwneud cais i'r Tribiwnlys. Mewn rhai achosion, gall eich perthynas agosaf ei hun ofyn i'r Tribiwnlys eich rhyddhau oni bai nad ydych am i'ch perthynas agosaf gael gwybod.

# RHAN 3

## Newid eich Perthynas Agosaf

### A all fy mherthynas agosaf newid?

Caiff y rheolau arferol ynghylch pwy yw eich perthynas agosaf eu hesbonio yn Rhan 1 y daflen hon. Maent yn golygu y gallai eich perthynas agosaf newid weithiau heb i chi nac unrhyw un arall wneud unrhyw beth. Er enghraifft, byddai plentyn hynaf sy'n cael ei ben-blwydd yn 18 oed yn dod yn berthynas agosaf i chi yn lle'ch rhiant hynaf.

### A all fy mherthynas agosaf benodi rhywun arall i fod yn berthynas agosaf i mi?

Ni all eich perthynas agosaf benodi rhywun arall i fod yn berthynas agosaf i chi. Ond gall ddweud y dylai rhywun arall wneud y pethau y bydd ef yn eu gwneud fel rheol fel eich perthynas agosaf. Dirprwyo hawliau yw enw'r broses honno.

Os yw eich perthynas agosaf am ddirprwyo'i hawliau i rywun arall, rhaid iddo ysgrifennu at y person dan sylw i ddweud hynny wrtho. Os bydd eich perthynas agosaf am gymryd ei hawliau'n ôl yn nes ymlaen, gall wneud hynny trwy ysgrifennu unwaith eto at y person arall.

Rhaid i'ch perthynas agosaf ddweud wrthych os yw wedi dirprwyo'i hawliau neu os yw wedi'u cymryd yn ôl. Os ydych yn cael eich cadw yn yr ysbyty neu'n cael triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth, rhaid i'ch perthynas agosaf ysgrifennu hefyd at reolwyr eich ysbyty. Os ydych yn destun gwarcheidiaeth, rhaid iddo ysgrifennu at eich awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol (ac os nad awdurdod gwasanaethau cymdeithasol yw eich gwarcheidwad, rhaid iddo ysgrifennu hefyd at eich gwarcheidwad).

Gall eich perthynas agosaf ddirprwyo'r holl hawliau a eglurir yn Rhan 2 y daflen hon, heblaw am un. Os byddwch wedi cael eich cadw yn yr ysbyty gan y llysoedd, neu os byddwch wedi cael eich trosglwyddo i'r ysbyty o garchar, ni all eich perthynas agosaf ddirprwyo'i hawl i ofyn i'r Tribiwnlys ganiatáu i chi adael yr ysbyty.

### Beth os nad oes gen i berthynas agosaf?

Os nad oes gennych berthynas agosaf, neu os nad oes unrhyw un yn gallu dweud pwy yw eich perthynas agosaf, gallwch ofyn i'r llys sirol benodi rhywun i fod yn berthynas agosaf i chi. Gall rhai pobl eraill ofyn i'r llys wneud hynny hefyd. Y bobl eraill a all wneud hynny yw:

- proffesiynolyn iechyd meddwl cymeradwy
- unrhyw un sydd ar y rhestr o berthnasau yn Rhan 1 y daflen hon
- unrhyw un arall sy'n byw gyda chi (neu, os ydych yn yr ysbyty, unrhyw un arall a oedd yn byw gyda chi cyn i chi fynd i'r ysbyty).

Gall y llys gyflwyno gorchymyn i ddweud pwy ddylai fod yn berthynas agosaf i chi. Gallai'r person hwnnw fod yn unrhyw un sy'n addas ym marn y llys ac sy'n cytuno i fod yn berthynas agosaf i chi. Nid oes yn rhaid iddo fod yn rhywun sydd ar y rhestr o berthnasau yn Rhan 1 y daflen hon.

Os byddwch yn gofyn i'r llys benodi rhywun i fod yn berthynas agosaf i chi, gallwch ddweud wrth y llys pwy ddylai'r person hwnnw fod yn eich barn chi. Os bydd rhywun arall yn gofyn i'r llys benodi rhywun i fod yn berthynas agosaf i chi, gall y person hwnnw roi ei farn ynghylch pwy ddylai fod yn berthynas agosaf i chi. Os bydd y sawl dan sylw'n cytuno i fod yn berthynas agosaf i chi, ac os bydd y llys yn meddwl ei fod yn addas, bydd y llys yn cyflwyno gorchymyn sy'n dweud y dylai fod yn berthynas agosaf i chi. Fel arall, bydd y llys yn dewis rhywun arall sy'n addas yn ei farn ef ac sy'n cytuno i fod yn berthynas agosaf i chi.

## Sut y gallaf i newid fy mherthynas agosaf?

Os nad ydych yn teimlo bod eich perthynas agosaf yn addas i fod yn berthynas agosaf i chi, gallwch ofyn i'r llys sirol newid eich perthynas agosaf. Bydd eich perthynas agosaf yn cael cyfle i ddweud wrth y llys os yw o'r farn y dylai barhau i fod yn berthynas agosaf i chi.

Os bydd y llys sirol yn cytuno nad yw eich perthynas agosaf yn addas, bydd yn cyflwyno gorchymyn sy'n dweud y dylai rhywun arall fod yn berthynas agosaf i chi. Gallwch chi gyflwyno eich barn i'r llys ynghylch pwy ddylai fod yn berthynas agosaf newydd i chi, a bydd y llys yn ystyried eich barn pan fydd yn gwneud ei benderfyniad.

Gallai'r person newydd fod yn unrhyw un sy'n addas ym marn y llys ac sy'n cytuno i fod yn berthynas agosaf i chi. Nid oes yn rhaid i'r person fod yn rhywun sydd ar y rhestr o berthnasau yn Rhan 1 y daflen hon.

Yn ogystal, gallwch ofyn i'r llys gyflwyno gorchymyn i newid eich perthynas agosaf os yw'r sawl dan sylw'n rhy sâl i wneud y pethau y mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn dweud y gall perthynas agosaf eu gwneud.

## A all pobl eraill newid fy mherthynas agosaf?

Gall rhai pobl eraill ofyn i'r llys sirol newid eich perthynas agosaf. Y bobl eraill a all wneud hynny yw:

- proffesiynolyn iechyd meddwl cymeradwy
- unrhyw un sydd ar y rhestr o berthnasau yn Rhan 1 y daflen hon
- unrhyw un arall sy'n byw gyda chi (neu, os ydych yn yr ysbyty, unrhyw un arall a oedd yn byw gyda chi cyn i chi fynd i'r ysbyty).

Fel chi, gallant ofyn i'r llys newid eich perthynas agosaf os ydynt o'r farn bod eich perthynas agosaf yn anaddas neu'n rhy sâl i fod yn berthynas agosaf i chi.

Yn ogystal, gallant ofyn i'r llys newid eich perthynas agosaf:

- os yw eich perthynas agosaf yn gwrthod gadael i chi gael eich cadw neu'ch gwneud yn destun gwarcheidiaeth, ac os ydynt o'r farn bod eich perthynas agosaf yn ymddwyn yn afresymol
- os ydynt o'r farn bod eich perthynas agosaf wedi defnyddio'i hawl i'ch rhyddhau, neu'n debygol o ddefnyddio'r hawl honno, heb feddwl yn iawn am effaith hynny arnoch chi neu bobl eraill.

(Gallwch wneud hynny eich hun hefyd, ond byddai PIMC neu rywun arall yn gwneud hynny fel rheol.)

## Beth sy'n digwydd os yw'r llys yn penodi rhywun i fod yn berthynas agosaf i mi?

Os bydd y llys yn cyflwyno gorchymyn i newid eich perthynas agosaf, dim ond tra byddwch yn cael eich cadw yn yr ysbyty neu tra byddwch yn destun triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth neu warcheidiaeth y bydd y person newydd yn berthynas agosaf i chi. Os nad ydych wedi cael eich cadw yn yr ysbyty neu'ch gwneud yn destun triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth neu warcheidiaeth, dim ond am dri mis y bydd y person newydd yn berthynas agosaf i chi.

Wedi hynny, bydd y rheolau a eglurir yn Rhan 1 y daflen hon ynghylch pwy yw eich perthynas agosaf yn berthnasol eto.

Mewn achosion eraill, os bydd y llys yn cyflwyno gorchymyn sy'n dweud pwy ddylai fod yn berthynas agosaf i chi, gallai'r llys benderfynu dweud am ba hyd y dylai'r person hwnnw fod yn berthynas agosaf i chi hefyd. Unwaith y bydd y cyfnod hwnnw wedi dod i ben, bydd y rheolau a eglurir yn Rhan 1 y daflen hon yn berthnasol eto.

Fel arall, unwaith y bydd y llys wedi cyflwyno gorchymyn sy'n dweud pwy ddylai fod yn berthynas agosaf i chi, dim ond y llys all newid eich perthynas agosaf, hyd yn oed os bydd eich perthynas agosaf newydd yn marw.

## A ellir newid fy mherthynas agosaf eto?

Gall y llys amrywio (newid) ei orchymyn i ddweud y dylai rhywun arall fod yn berthynas agosaf newydd i chi. Gallwch chi ofyn i'r llys wneud hynny. Gall y bobl ganlynol ofyn i'r llys wneud hynny hefyd:

- proffesiynolyn iechyd meddwl cymeradwy
- y person a ddylai fod yn berthynas agosaf i chi yn ôl y llys
- (os bydd y person hwnnw'n marw) unrhyw un sydd ar y rhestr ar ddechrau'r daflen hon.

Yn ogystal, gall y llys ryddhau ei orchymyn (dod â'i orchymyn i ben). Gallwch chi ofyn i'r llys wneud hynny. Gall y bobl ganlynol ofyn i'r llys wneud hynny hefyd:

- y person a oedd yn arfer bod yn berthynas agosaf i chi
- unrhyw un arall a fyddai'n berthynas agosaf i chi'n awr pe bai'r rheolau a eglurir yn Rhan 1 y daflen hon yn berthnasol
- y person a ddylai fod yn berthynas agosaf i chi yn ôl y llys
- (os bydd y person hwnnw'n marw) unrhyw un sydd ar y rhestr ar ddechrau'r daflen hon.

Os bydd y llys yn dod â'i orchymyn i ben, bydd y rheolau a eglurir yn Rhan 1 y daflen hon yn berthnasol eto. Gallai hynny olygu bod y person a arferai fod yn berthynas agosaf i chi'n dod yn berthynas agosaf i chi eto, neu bod rhywun newydd yn dod yn berthynas agosaf i chi.

# RHAN 4

## Eithriadau

### Perthynas Agosaf

- Os nad oedd eich mam a'ch tad wedi priodi pan gawsoch chi eich geni, dim ond os cafodd eich tad gyfrifoldeb rhiant amdanoch dan Ddeddf Plant 1989 y bydd ef (a'i berthnasau) yn cael eu cynnwys ar y rhestr hon.
- Caiff perthnasau mabwysiadol eu cynnwys ar y rhestr (er enghraifft, eich rhieni mabwysiadol neu blentyn a fabwysiadwyd gennych). Ni chaiff llys-berthnasau eu cynnwys (er enghraifft, eich llys-riant, llys-blentyn).
- Os oes mwy nag un person yn yr un safle ar y rhestr, bydd perthnasau "o waed coch cyfan" yn dod o flaen perthnasau "hanner gwaed". Er enghraifft, os gallai eich brawd llawn neu'ch hanner chwaer fod yn berthynas agosaf i chi, eich brawd llawn fydd eich perthynas agosaf fel rheol.
- Os oes rhywun wedi'i gynnwys ar y rhestr o berthnasau dim ond am ei fod wedi bod yn byw gyda chi, ni all y person hwnnw fod yn berthynas agosaf i chi os oes gennych ŵr, gwraig neu bartner sifil a allai fod yn berthynas agosaf i chi.
- Ni all eich gŵr, eich gwraig neu'ch partner sifil fod yn berthynas agosaf i chi os ydych wedi gwahanu am byth, neu os yw'r sawl dan sylw wedi eich gadael chi neu'ch bod chi wedi'u gadael nhw.
- Ni all rhywun dan 18 oed fod yn berthynas agosaf i chi oni bai fod y sawl dan sylw'n ŵr, yn wraig neu'n bartner sifil i chi, neu'n fam neu'n dad i chi.
- Ni all rhywun sy'n byw dramor fod yn berthynas agosaf i chi oni bai eich bod chi hefyd yn byw dramor fel rheol. Mae "tramor" yn golygu y tu allan i'r Deyrnas Unedig, Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel.

Yn yr achosion hyn i gyd, y person nesaf ar y rhestr fydd eich perthynas agosaf fel rheol.

## Dan 18

Yn achos y rhan fwyaf o bobl sydd dan 18 oed, ceir ychydig o eithriadau i'r prif reolau:

- Os yw llys wedi cyflwyno gorchymyn gofal sy'n eich rhoi chi yng ngofal awdurdod lleol, yr awdurdod lleol fydd eich perthynas agosaf (oni bai fod gennych ŵr, gwraig neu bartner sifil a allai fod yn berthynas agosaf i chi).
- Os oes gennych warcheidwad, bydd y person hwnnw (neu'r bobl hynny i gyd os oes gennych fwy nag un gwarcheidwad) yn berthynas agosaf i chi fel rheol. Nid yw hynny'n cynnwys gwarcheidwad sydd gennych am eich bod yn destun gwarcheidiaeth dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ei hun.
- Os yw llys wedi cyflwyno gorchymyn preswylio sy'n dweud gyda phwy y dylech chi fyw, y person hwnnw (neu'r bobl hynny i gyd os oes mwy nag un ohonynt) fydd yn berthynas agosaf i chi fel rheol.

# RHAN 5

## Gwybodaeth Gyffredinol

### Cod Ymarfer Cymru

Mae Cod Ymarfer Cymru yn rhoi cyngor i staff ynghylch Deddf Iechyd Meddwl 1983. Bydd yn rhaid iddynt feddwl am yr hyn y mae'r Cod yn ei ddweud pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ynghylch eich gofal. Gallwch ofyn am gael gweld copi o'r Cod, neu gallwch ofyn am gopi o'r llyfryn 'Tawelwch Meddwl' sy'n sôn am God Ymarfer Cymru.

## Mwy o wybodaeth a help

Mae'r gwasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol wrth law i roi help a chefnogaeth i chi hefyd.

Gofynnwch os hoffech chi gael copi arall o'r daflen hon ar gyfer rhywun arall.

Bydd aelod o staff yn ceisio'ch helpu chi os oes unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall am eich gofal a'ch triniaeth. Gofynnwch i aelod o staff am esboniad os oes unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall yn y daflen hon neu os oes gennych gwestiynau eraill nad yw'r daflen hon wedi'u hateb.

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49865
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg